St Mary the Virgin Church in Wales Primary School
Mrs N J Prichard B.Mus (Hons), Headteacher
North Church Street
Butetown, Cardiff CF10 5HB

Learning and praying together; being kind, helpful and hardworking.

DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

DARPARIAETH GYNRADD CYFRWNG SAESNEG

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair ("y Corff Llywodraethu" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Corff Llywodraethu, yn cynnig gwneud y canlynol:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair, North Church Street, Butetown, Caerdydd, CF10 5HB gyda hyd at 20 lle ar gyfer plant 4 - 11 oed sydd ag anableddau dysgu cymhleth.

Cynigir rhoi'r cynnig ar waith ym mis Medi 2020.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Caerdydd ar hyn o bryd.

Roedd cyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Lleol a barn Estyn ar gael yn:

www.stmarythevirginprm.co.uk a www.caerdydd.gov.uk

Byddai derbyniadau i'r CAA yn cael eu rheoli gan yr awdurdod lleol. Byddai lleoliadau'n amodol ar ddatganiad o Angen Addysg Arbennig yn unol â Chod Ymarfer Addysg Arbennig Cymru 2002 a Deddf Tribiwnlys Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 newydd.

Byddai derbyniadau i'r CAA ar wahân i dderbyniadau i'r brif ysgol a byddent ar ben Rhif Derbyn Cyhoeddedig (PAN) yr ysgol.

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Ysgol ar dderbyn plant i'r ysgol o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Gwneir unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod Lleol ar drafnidiaeth ysgol.

Ymhen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 30 Mai 2018 gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair, North Church Street, Butetown, Caerdydd, CF10 5HB.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau i Gadeirydd y Llywodraethwyr drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru Part Funded by Welsh Government
Healthy Schools Cardiff Network
Eco-Schools

Sylwer bod rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a anfonir drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu.

Bydd y Corff Llywodraethu'n cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath (heb eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i arsylwadau arnynt ymhen 28 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu.

Dyddiedig 03 May 2018

Llofnod: Nick Olsen
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Forwyn Fair yn ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir sydd wedi ei lleoli yn Butetown. Nid oes unrhyw ddarpariaeth arbenigol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Darperir adeilad ar gyfer y CAA yn rhan o gynllun Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif i ailadeiladu'r ysgol. Ni fyddai'r CAA yn agor tan bod yr adeilad newydd wedi'i adeiladu.

Mae gan y ddarpariaeth ADY ychwanegol ddalgylch ledled y ddinas ac felly efallai na fydd disgyblion yn byw gerllaw'r safle. O ganlyniad, efallai na fydd llwybrau cerdded, beicio, gwasanaethau bysus na rheilffyrdd yn addas o ran pellter nac anghenion disgyblion. Ar ben hynny, tra bo rhai disgyblion yn gallu teithio yn annibynnol gyda chymorth cydnabyddir na all eraill ac felly bydd gofyn i Gludiant Ysgolion weithio gyda disgyblion, ysgolion a rhieni/gofalwyr i edrych ar y ffyrdd fwyaf priodol o gludo disgyblion a'u hanghenion.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government
Healthy Schools Cardiff Network
Eco-Schools